Senedd Elections'26

Term time only pay for school support staff traps thousands in poverty

Very low pay in schools is a gender issue

Thousands of people working in schools supporting the education and welfare of children are very low paid and many are trapped in in-work poverty. They are forced to take second jobs or rely on benefits to make ends meet. The overwhelming majority are women.

Support staff are vital for successful schools

They perform all the vital yet unheralded jobs including teaching assistants (TAs), cleaners, catering staff, lunchtime supervisors, admin staff, caretakers and more.

TAs help to support children with additional learning needs and those underperforming, are essential in assisting pupils and teachers in ever increasing class sizes, release teachers for preparation and much more.

Support staff are overstretched and underpaid. Part-time, casual and term time working, dominate. They lack a proper career structure with transparent fair pay and conditions, uniformly applied across the whole of Wales.

The scandal of term time only pay

School support staff are paid for term time only whilst headteachers and teachers *are* paid for their summer holidays. Support staff are only paid for the time they're in school – 9 months, but this is disguised by being spread out into 12 payments in the year. Consequently, many take home a lower income than they would earn on a minimum wage full-time job.

During term time they work over their hours with after school clubs, and residential trips, late nights and early mornings for no extra pay. But that *is* factored into teachers' pay. They are seen as professional enough to run a class but not valued enough to be paid for summer holidays like teachers.

It is usually very difficult for them to recoup holiday time back if they are ill or have an operation during the school holidays as you can in other sectors.

UNISON is asking incoming Senedd members:

- How can we reward school support staff fairly? Creating a Wales School Support Staff Negotiating Body which prioritises an end to term time only pay is key. Read the UNISON Cymru commissioned report, *Time to value school support staff*, the most authoritative study of its kind in Wales.

UNISON Cymru

Etholiad y Senedd'26

Mae cyflog yn ystod y tymor yn unig i staff cymorth ysgolion yn cadw miloedd mewn tlodi

Mae cyflog isel iawn mewn ysgolion yn broblem rhywedd

Mae miloedd o bobl sy'n gweithio mewn ysgolion sy'n cynorthwyo ag addysg a lles plant yn derbyn cyflog isel iawn, ac mae llawer wedi'u dal mewn sefyllfa o dlodi mewn gwaith. Maen nhw'n cael eu gorfodi i ymgymryd ag ail swyddi neu ddibynnu ar fudd-daliadau i gael dau ben llinyn ynghyd. Menywod yw'r mwyafrif llethol o'r bobl hyn.

Mae staff cymorth yn hanfodol ar gyfer ysgolion llwyddiannus

Maent yn cyflawni'r holl swyddi hanfodol ond sy'n aml yn cael eu hanwybyddu, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, glanhawyr, staff arlwyo, goruchwylwyr amser cinio, staff gweinyddol, gofalwyr a mwy.

Mae cynorthwywyr addysgu yn helpu plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n tanberfformio; maent yn hanfodol wrth gynorthwyo disgyblion ac athrawon mewn dosbarthiadau sy'n cynyddu'n barhaus, rhyddhau athrawon i baratoi a llawer mwy.

Rhoddir gormod o gyfrifoldeb ar staff cymorth, ond mae eu cyflog yn annigonol. Mae gweithio rhan-amser, achlysurol ac yn ystod y tymor yn gyffredin. Nid oes ganddyn nhw strwythur gyrfa priodol sydd â chyflog ac amodau teg tryloyw, sy'n cael eu gweithredu'n gyson ledled Cymru gyfan.

Sgandal tâl yn ystod tymor yn unig

Caiff staff cymorth ysgolion eu talu yn ystod y tymor yn unig, tra bod penaethiaid ac athrawon yn cael eu talu dros wyliau'r haf. Dim ond am yr amser maen nhw yn yr ysgol y mae staff cymorth yn cael eu talu – 9 mis, ond mae hyn yn cael ei guddio trwy gael ei rannu'n 12 taliad yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad, mae llawer yn mynd adref ag incwm is nag y byddent yn ei ennill mewn swydd lawn-amser ar yr isafswm cyflog.

Yn ystod y tymor, maen nhw'n gweithio dros eu horiau gyda chlybiau ar ôl ysgol, yn ogystal â theithiau preswyl, nosweithiau hwyr a boreau cynnar, heb unrhyw dâl ychwanegol. Ond mae hynny yn cael ei gynnwys yng nghyflog athrawon. Fe'u hystyrir yn ddigon proffesiynol i gynnal dosbarth ond nid yn ddigon gwerthfawr i gael eu talu dros wyliau'r haf fel athrawon.

Fel arfer mae'n anodd iawn iddyn nhw adennill amser gwyliau os ydyn nhw'n sâl neu'n cael llawdriniaeth yn ystod gwyliau'r ysgol, fel y gallwch chi mewn sectorau eraill.

Mae UNISON yn gofyn y canlynol i Aelodau newydd-etholedig Senedd Cymru:

- Sut allwn ni wobrwyo staff cymorth ysgolion yn deg? Mae creu Corff Negodi ar gyfer Staff Cymorth Ysgolion Cymru, sy'n blaenoriaethu rhoi terfyn ar gyflog tymor yn unig, yn allweddol. Darllenwch yr adroddiad a gomisiynwyd gan UNISON Cymru, *Amser i werthfawrogi staff cymorth ysgolion*, yr astudiaeth fwyaf awdurdodol o'i bath yng Nghymru.

UNISON Cymru